

## CERDDI CYFARCH EISTEDDFODOL

### I Gruff

Be ydym ond rhai'n bodio trydarfyd  
Rhyw dyrfa ddiflino?  
Ni a'n rhegi a'n bragio,  
Yn rhegi'r gwir a'r gwir o'i go.

Ond doi yn rhith y dewin a thrwy'r borth  
I'r Bae cawn dy ddilyn  
I wasgu'r haf trwy led sgrîn,  
Hwonnw'n haf anghynefin.

Yn ddigidol blwyfol i ble yr awn  
A'n cri yn y gwagle?  
Fe fynni Gruff sylfaen gre' -  
Eira'r awdl ydi'n troedle.

Gruff fardd plant, Gruff gerdd dantiwr, Gruff y gerdd  
Gruff y gwir archstompiwr,  
Gruff yn iau a Gruff hen wŷr,  
Gruff y ddawn, Gruff ddiddanwr.

Gruff Pwllheli, Gruff gwmniydd. Hefyd  
Gruff ein Prifardd newydd.  
Ein gŵr hoffus wyt, Gruffudd,  
Gŵr ar dân. Gruff o Gaerdydd.

## I Catrin

O naid i naid daw syniadau d'afiaith  
Ar Daf, nes bod hwyliau  
Bach gwynion dy grychdonnau  
Ym mhob cwys yn bywiocáu.

Ni all y rhew dy dewi - nid dros dro  
Yw'r straeon sy'n berwi  
Yn un llanw nes llenwi  
Don wrth don dy Grangetown di.

OSIAN WYN JONES

## I LONGYFARCH PRIFARDD CORON CAERDYDD, 2018

*Ddydd Llun llon dy goroni,  
llun dy wên a welen i.*

Treiddiol, deifiol, Gatrín Dafydd, yw 'Isht!  
dy gwestiwn am drywydd  
dy iaith ar daith drwy Gaerdydd.  
Ei â ni i'r Grangetown newydd,  
i 'Drelluest'; fe dry llawer yno  
i gyd gynnal menter  
yr iaith, i wynebu'r her  
o ad-ddodi iddi'i hyder  
ei bod er lles, heb ormesu eraill.  
Hyn geir yn dy ganu.  
Â'th iaith, a Grangetown o'i thu  
erbyn hyn, mwynha wenu!

## I LONGYFARCH PRIFARDD CADAIR CAERDYDD, 2018

Mewn un gêm y mae un gôl-a-hanner  
yn un hanesyddol,  
un enwog o wahanol.

Mae hanes y gêm, am un sgôr, un gic,  
un gamp, un exffactor,  
un agen gul ar agor.

Un bwlch i fynd trwyddo â'r bêl, chwimed  
â chamu dros bwedel;

Hal un anadl, un annel  
Un awdl gaiff ein sylw ni, un huawdl,  
un awen i'n sobri;  
un dirion, daer ei stori.

Un â'i hacenion yn canu, un rwydd  
ei chreffft i'n diddanu;  
ac un sy'n ein goganu.

Un awdl, â'i Chymraeg chwaraegar yn hwyl,  
yn 'Waw!' ddiymhongar,  
a'i rhaid yw bwydo'r adar.

Un awdl sy'n blino ar ddadlau rhacsog  
am frexit a'i waeau,  
a rhei rheg pan yw'n parhau.

Un gerdd am led lafargaru, un nos  
o eisiau, cyn ffaelu,  
o oferedd, cyn difaru.

Un gân am un Robson Kanu, am werth  
creu myth o ffugenw,  
am eira mawr, a'r meirw.

JIM PARC NEST

## I gyfarch Catrin

Steddfodau ers talwm  
a lenwai fileniwm  
o glod i'w prydyddion  
yn goron i'w gwaith,  
yn nwy fil a deunaw  
Caerdydd buai'r alaw,  
a chanwyd y faled  
â llyged llaith.

Yn Grangetown mae cledrau  
sy'n bwyth ger terasau  
a thrên ein hymwybod  
yn dyfod ar daith,  
a gwn, wrth y stêshyn  
a'r jentrifficeshyn,  
Cymraeg sydd i'w chlywed  
â llyged llaith.

Mileniwm eleni  
sydd, Catrin, yn profi  
mai dinas y freuddwyd  
a naddwyd â'n hiaith,  
mae Grangetown ym mhobman,  
mewn Gŵyl ac ar lwyfan,  
a thithau 'mhob tamed  
o'r llyged llaith.

## I gyfarch Gruff (a Phoebe)

Mae'n nos lau, mae NYC yma'n ffres,  
mae 'na *Friends* eleni  
wrth galon ein noson ni,  
a phawb sy'n nabad Phoebe.

Phoebe'r awen Flenial, Phoebe'r cof,  
Phoebe'r *quirks* dihafal  
o ryfedd ac amryfal  
ydyw'r un ym mhader *Hal*.

Mae i Gruff ddemograffeg ddienw'n  
ei ddinas, a'i ddameg  
ranna'n daer ein daeareg  
a'n cleisiau o'r dechrau'n deg.

Curo'r bÿs, cwrw i'r bol, taro *hit*  
ar *YouTube* a'i ffwtbol,  
tomen o lechen a lol,  
a'r graith rhy garwriaethol.

*Hangover, Tinder*, ta waeth, mae Prifardd,  
mae profiad bodolaeth  
yr eiliad mewn caniad caeth,  
ac yn awdl ei genhedlaeth.

## I gyfarch Rhydian

Rhannu'u hawen yn Brifeirdd o'r newydd  
a'i rhannu'n graff wnaeth Catrin a Gruffydd,  
eto mae llofnod, mae Prif Ddramodydd  
yn eisio'n llên a synau'n llawenydd,  
yn gyrru'r dweud drwy Gaerdydd, a'r ddrama'n  
wib o Rydian, ein cyfaill o brydydd.

ARON PRITCHARD